# Adroddiad ar Ddigwyddiad

## Harbwr Aberdyfi 22ain Awst 2007.

Ar yr 22ain Awst 2007, am tua 14.30, roedd Harbwrfeistr Aberdyfi; Swyddog Morwrol, Harbwrs; a'r Swyddog Morwrol Traethau ar ymweliad safle yn archwilio'r Harbwr, y Parc Dingis ac ardal y traeth yn Aberdyfi.

Tua 14-40pm roedd Bad Achub Aberdyfi newydd ddychwelyd i'w llithrfa pan gysylltwyd â'r criw ar y radio VHF gan Wyliwr y Glannau, Aberdaugleddau.

Roedd yr alwad yn tynnu sylw'r criw i ddigwyddiad a fu yn yr aber yn Aberdyfi oedd wedi ei adrodd iddynt.

Cafodd y Bad Achub ei ail-lawnsio gan yr adroddwyd fod cwch pŵer a cherbyd dŵr personol wedi bod mewn gwrthdrawiad mae'n debyg, a bod y teithiwr y cerbyd dŵr personol yn y dŵr gyda niwed posib i'w gefn. Y lleoliad oedd 52° 32.33 N 004° 03.27 W.

Defnyddiodd criw'r Bad Achub 'scoop stretcher' yr R.N.L.I. i dynnu'r claf o'r dŵr ac yna cafodd ei gludo i lithrfa'r Bad Achub ac yna i'r orsaf. Yn ystod y cyfnod yma cysylltwyd â'r gwasanaethau brys (Ambiwlans) a chafodd y claf gymorth cyntaf. Yno hefyd yn rhoi sylw iddo roedd meddyg lleol, aelod o Glwb Hwylio Dyfi. Cyfeiriodd y Gwasanaeth Ambiwlans yr Ambiwlans Awyr i'r ardal.

Cyrhaeddodd yr Ambiwlans Awyr tua 15.45 awr a pharhaodd y parafeddyg a'r meddyg lleol i drin y claf. Penderfynwyd gan fod y claf ar 'scoop stretcher yr R.N.L.I. na ellid cludo'r claf yn yr ambiwlans awyr oherwydd maint y stretcher.

Roedd Hofrennydd Achub Sea King yr R.A.F. yn hyfforddi yn y cyffiniau ac ail-gyfeiriwyd y Sea King i Aberdyfi er mwyn cludo'r claf i Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Cafodd ardal y traeth ger gorsaf yr R.N.L.I. ei chlirio fel bod hofrennydd y Sea King yn gallu glanio yno. Rhoddwyd y claf yn yr hofrennydd a'i gludo i Fangor.

Cymerodd yr Heddlu oedd wedi dod i'r digwyddiad ddatganiadau gan y ddwy ochr a'r tystion, ac fe gymerwyd y ddau gerbyd/cwch tra fod yr Heddlu yn cysylltu â'r M.C.A.

Unwaith y penderfynwyd na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn erbyn unrhyw garfan cafodd y cerbyd/cwch eu rhyddhau.

Rydym wedi derbyn y manylion a ganlyn am amgylchiadau'r ddamwain:-

Roedd y Cerbyd Dŵr Personol gyda'r gweithredwr ac un teithiwr arno ar y dŵr yn yr ardal sydd o dan awdurdod harbwr Aberdyfi. Roedd y cerbyd yn teithio i gyfeiriad deheuol gyda'i leoliad oddeutu 52° 32.364N 004° 03.398 W

Gadawodd y cwch pwer, oedd yn cael ei forwydo gan un gweithredwr, y traeth gyda lleoliad o tua 52° 32.534 N 004° 03.409 W gan fynd tua chanol yr aber. Adroddwyd fod y cwch pwer yn cynyddu cyflymder fel roedd yn gadael y traeth.

Efallai oherwydd grym yr injan, ond fel roedd yn cynyddu cyflymder roedd blaen y cwch yn codi gan felly amharu ar yr hyn roedd gyrrwr y cwch yn ei weld o'i flaen.

Deallir fod y cwch pwer wedi parhau i gynyddu cyflymder tra'n mordwyo i gyfeiriad canol yr aber.

Yn ystod y cyfnod yma adroddwyd fod y Cerbyd Dŵr Personol wedi newid cwrs i gyfeiriad gorllewinol ac roedd yn ymddangos y byddai yn gwrthdaro gyda'r cwch pwer.

Yn fuan iawn wedyn cafwyd gwrthdrawiad a olygodd fod teithiwr y Cerbyd Dŵr Personol yn cael ei daflu i'r dŵr.